

Meini Prawf Ariannu:

Cronfa Goffa Thomas John Jones

Sefydlwyd Cronfa Goffa Thomas John Jones ym 1944 er mwyn helpu pobl ifanc, yn yr hen Sir Frycheiniog, i astudio a hyfforddi ai gael gwaith yn y diwydiant peirianeg.

Mae hen sir Frycheiniog bellach yn cwmpasu ardal De Powys sy'n cynnwys ardaloedd Penderyn sydd bellach yn Rhondda Cynon Taf, Cefn-coed-y-seicmmer, Llwyn-onn, Pontsticill, y Faenor a Threfechan sydd bellach ym Merthyr Tudful, Princetown a Llechryd sydd bellach yng Nghaerffili, Clydach, Llanelly, a Gilwern bellach ym Sir Fynwy. Mae'r Gronfa hefyd bellach yn cwmpasu sir gyfan Blaenau Gwent.

Grantiau sydd Ar Gael

Gall unigolion yn astudio peirianeg neu ar gwrs gydag agwedd peirianeg arwyddocaol ymgeisio am grant o £2,500 y flwyddyn ar gyfer y ffurfiau canlynol o astudio:

- Lefel israddedig
- Lefel ôl raddedig
- HND
- PhD

Mae gofyn i ymgeiswyr a fydd yn astudio'n ôl raddedig gyflwyno datganiad ynghylch y rhaglen o astudiaeth a nodau ymchwil.

Fel arfer, bydd ymgeiswyr yn derbyn grant am gyfnod eu cwrs, yn amodol ar gadarnhad gan eu tiwtor eu bod wedi cwblhau'r flwyddyn ddiwethaf yn llwyddiannus a chadarnhad gan eu coleg bob blwyddyn eu bod yn dal ar y cwrs.

Mae grantiau'n cael eu dyfarnu ar gyfer cyrsiau penodol ac ni ellir eu defnyddio at unrhyw ddiben arall heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Ymddiriedolwyr.

Pwy a all ymgeisio?

Mae grantiau ar gael i fyfyrwyr sy'n byw ac wedi boc mewn ysgolion yn ardaloedd cymwys Sir Frycheiniog neu Blaenau Gwent.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr fod yn astudio peirianeg neu gwrs gyda chefnidir peirianeg arwyddocaol.

Sut i ymgeisio?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais, yn ddelfrydol erbyn y terfyn amser o **30 Medi**.

Os byddwch wedi methu'r terfyn amser, ffoniwch y tîm Grantiau ar 02920 379 580.

Noder:

- Bydd yn rhaid i ymgeiswyr sy'n ymgeisio am grant ar gyfer cwrs ar lefel Ôl-raddedig fod wedi derbyn gradd anrhydedd dosbarth 1af neu 2.1.
- Ni ddylai ymgeiswyr fod yn derbyn arian gan y llywodraeth.

- Dylai ymgeiswyr llwyddiannus hysbysu'r Ymddiriedolwyr gynted â bo modd o unrhyw newid yn eu hamgylchiadau sy'n effeithio ar eu hastudio, megis newid cwrs, methu arholiad neu salwch.
- Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n dangos orau sut maen nhw'n cyfarfod ag amcanion y Gronfa, ac sy'n dangos orau yr angen ariannol a chymdeithasol y bydd y grant yn eu diwallu.
- Ni fydd grantiau'n cael eu rhoi yn ôl weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes yn ddyledus cyn derbyn y llythyr cynnig grant a llofnodi'r telerau ac amodau.
- Ni fydd grantiau yn cael eu rhoi i unigolion ar gyfer costau ble mae cefnogaeth ariannol arall ar gael e.e. ffioedd dysgu ble mae'r ymgeisydd yn gymwys i gael benthyciad myfyriwr.
- Dim ond unwaith y bydd unigolyn yn cael ymgeisio i'r gronfa
- Nid yw ymgeiswyr llwyddiannus yn gymwys i ail ymgeisio am 5 mlynedd.